## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (MAN I'R DWYRAIN O LANFAIR-YM-MUALLT, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, ger Llanfair-ym-Muallt, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt Pont Duhonw hyd at bwynt 50 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r fynedfa i'r eiddo a elwir Woodlands, i'r dwyrain o Lanfair-ym-Muallt, Powys.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A470 tua'r de i Aberhonddu, yr A40 tua'r gorllewin i Lanymddyfri a'r A483 tua'r gogledd-ddwyrain i Lanfair-ym-Muallt: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 7 Medi 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol o 19:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw hyd 07:00 o'r gloch ar 14 Medi 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (EAST OF BUILTH WELLS, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road near Builth Wells, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A470 trunk road that extends from the centre-point of Pont Duhonw to a point 50 metres east of the centre-point of the access to the property known as Woodlands, east of Builth Wells.

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound A470 to Brecon, westbound A40 to Llandovery and north-eastbound A483 to Builth Wells: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 7 September 2026. The temporary prohibition is expected to operate intermittently from 19:00 hours on that date until 07:00 hours on 14 September 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government